# Wedi cael llond bol?
# Teimlo fel dianc?

**'Dw i wedi cael digon! Does 'na ddim llonydd i'w gael! A dim lle i droi yma gyda'ch geriach chi ym mhob man! Mi fydda i wedi mynd a'ch gadael chi i gyd ryw ddiwrnod!'**

Geiriau mam pan fydd hi dan straen! Ond efallai fod arni angen brêc bach. Ble gall hi fynd tybed?... Syniad! Y gofod! Digon o le i droi a digon o dawelwch a llonyddwch!

Felly, i ffwrdd â fi i wneud ychydig ymchwil. Beth fyddai angen arni?

- Yn gyntaf siwt gofodwr. Cost y rhataf oddeutu £6 miliwn.
- Rhai yn mynd â'u hatmosffer eu hunain gyda nhw ac wedi llwyddo i gerdded yn y gofod. Y cyntaf i wneud hyn oedd Alexei Leonov yn 1965.
- Ond doedd ganddo ddim system oeri yn ei siwt ac aeth yn rhy boeth gan golli llawer o ddŵr o'i gorff.
- Hefyd, pan adawai'r llong ofod byddai'r siwt yn mynd yn anystwyth oherwydd y newid yn y pwysedd ac ni allai Leonov symud ei freichiau.




*Siwt Leonov*

- Erbyn hyn mae'r problemau hyn wedi eu datrys ac mae gan y siwtiau modern eu systemau oeri a rheoli pwysedd a gallai mam symud yn ddidrafferth.



Llun: NASA

- Gallai beidio â gwisgo'r siwt ond mewn munudau byddai'n mygu i farwolaeth oherwydd diffyg ocsigen. Cyn mygu mae'n debygol y byddai ei gwaed yn berwi.
- Perygl arall y byddai'n rhaid i mam ei wynebu fyddai pethau'n hedfan – rhyw fanion fel creigiau a darnau o gomed neu ddwy.

Wnes i ddim trafferthu gwneud ymchwil pellach – darganfod manion fel faint fyddai'r trip ei hun yn ei gostio, oherwydd roeddwn i wedi penderfynu y byddai mam yn well ei byd gartref gyda ni, er ein bod yn boen...